Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Laser Meg, Beddau

Dyddiad yr arolygiad: 11 Mai 2026

Dyddiad cyhoeddi: 11 Awst 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-180-4

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.

Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom 5

2. Crynodeb o'r arolygiad 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym 9

   Ansawdd Profiad y Claf 9

   Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol 11

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth 14

4. Y camau nesaf 15

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad 16

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith 17

Atodiad C – Cynllun gwella 18



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Laser Meg, Beddau ar 11 Mai 2026.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 11 o holiaduron. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod cleifion yn cael lefel dda o ofal yn Laser Meg. Roedd trefniadau cadarn ar waith i gefnogi preifatrwydd ac urddas cleifion yn llawn, ac roedd ymgyngoriadau yn cael eu cynnal mewn ystafell drin breifat. Roedd cleifion yn cael eu trin mewn ffordd urddasol a pharchus drwy gydol eu taith fel cleifion. Roedd ymgyngoriadau trylwyr gan gynnwys cydsyniad, costau a risgiau yn amlwg yng nghofnodion cleifion, ynghyd â gwybodaeth fanwl am ôl-ofal. Roedd y systemau a oedd ar waith i gofnodi ac ymateb i adborth gan gleifion yn foddhaol ac roedd y trefniadau ar gyfer cynllunio gofal yn cael eu rheoli'n dda yn y lleoliad.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw i safon uchel. Roeddent yn electronig, yn glir ac yn drefnus, ac roedd cydsyniad wedi'i ddogfennu'n gyson
- Lefelau uchel o brofiad cadarnhaol i gleifion
- Dangos dull cynhwysol o roi gofal.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y lleoliad yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Fodd bynnag, roedd ardal fach o lawr y clinig wedi'i difrodi a'i gorchuddio â thâp, a gwnaethom argymell y dylid ei hatgyweirio. Roedd amserlenni glanhau yn cael eu cwblhau, ac roedd yr ystafell drin a'r cyfarpar yn lân yr olwg. Fodd bynnag, nid oedd amserlenni glanhau yn cael eu cadw'n rheolaidd, a chytunodd y rheolwr cofrestredig y byddai'n cadw'r rhain yn y dyfodol.

Roedd y lleoliad yn rhoi triniaethau gan ddefnyddio peiriannau a oedd wedi'u gwasanaethu'n briodol, ac roedd gan y lleoliad gydberthynas dda â'i Gynghorydd Diogelu rhag Laserau, a oedd o fudd i'r cleifion a'r staff. Roedd protocolau meddygol ar gael ac wedi'u llofnodi gan ymarferydd meddygol arbenigol. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant clinigol perthnasol ac roedd yn meddu ar wybodaeth dda am y triniaethau yr oedd yn eu cynnig.

Roedd asesiadau risg Iechyd a Diogelwch wedi'u cwblhau, ac roedd pob cam o'r cynllun gweithredu wedi'i gwblhau ar adeg yr arolygiad.

Roedd asesiad risg tân a diffoddwyr tân ar gael ac yn cael eu gwasanaethu, ac roedd arwyddion allanfa dân clir ym mhob rhan o'r adeilad. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd arwydd allanfa dân uwchben y drws tân ei hun. Ni allai'r gwasanaeth ddarparu tystiolaeth o brofion larwm tân nac ymarferion tân rheolaidd, ac nid oedd arwyddion 'Dim smygu' wedi'u harddangos ym mhob rhan o'r adeilad; fodd bynnag, cafodd y gwelliannau hyn eu gwneud yn brydlon yn dilyn yr arolygiad.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mynd i'r afael â'r llawr sydd wedi'i ddifrodi yn yr ystafell clinig er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, mewn cyflwr da, ac yn addas ar gyfer defnydd clinigol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer cynnal a chadw pob darn o gyfarpar laser yn barhaus, gan sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio ac yn cydymffurfio
- Roedd y staff yn darparu gofal laser diogel, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gyson, ac roedd tystiolaeth glir o ymarfer ystyrlon wedi'i deilwra at anghenion unigol cleifion.
- Roedd cofnodion cleifion o safon uchel, gyda dogfennaeth electronig fanwl a chywir a oedd yn cael ei chadw'n ddiogel er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y clinig yn cael ei arwain yn dda gan y rheolwr cofrestredig ac roedd polisïau clir a chynhwysfawr ar waith a oedd yn cael eu hadolygu a'u dogfennu ar yr adegau gofynnol.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf mewn meysydd gorfodol fel Atal a Rheoli Heintiau (IPC), Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Cymorth Cyntaf a Diogelu. Cwblhawyd yr hyfforddiant hwn yn brydlon a chyflwynwyd tystysgrif fel tystiolaeth yn dilyn yr arolygiad er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.

Roedd tystysgrif atebolrwydd y cyflogwr a thystysgrif cofrestru AGIC wedi'u harddangos mewn ardal lle y gallai cleifion eu gweld yn hawdd. Roedd trefniadau ar gyfer rheoli pryderon a chwynion yn glir ac ar gael i gleifion drwy'r wefan ac yn y clinig, ond nid oedd

unrhyw gwynion ffurfiol wedi dod i law ac roedd adborth yn cael ei geisio gan gleifion a'i adolygu'n rhagweithiol.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod yr holl hyfforddiant hanfodol yn cael ei gadw'n gyfredol a sefydlu system ddibynadwy i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant er mwyn nodi pan fydd angen cwblhau hyfforddiant gloywi.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gan y gwasanaeth system effeithiol a strwythuredig ar gyfer adolygu polisïau a gweithdrefnau, a oedd yn sicrhau bod dogfennau yn gyfredol, yn glir ac yn cyd-fynd â gofynion rheoliadol
- Roedd y weithdrefn gwyno yn glir, yn hygyrch ac ar gael yn hwylus i gleifion, gan gefnogi natur agored a dull cadarnhaol o ymdrin ag adborth.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Rhoddodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC adborth cadarnhaol am y gwasanaeth, a nododd pob ymatebydd ei fod wedi cael profiad ‘da iawn’.

Tynnodd y cleifion sylw hefyd at broffesiynoldeb y staff, eu cyfathrebu clir, a'u gallu i wneud iddynt deimlo'n gyfforddus, yn ddiogel a'u bod yn cael gofal da.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *“Mae hi'n broffesiynol iawn ac yn llawn gwybodaeth. Mae'r amgylchedd yn lân iawn, ac mae hi'n esbonio'r driniaeth a'r camau ôl-ofal yn drylwyr iawn. "Rwy'n teimlo'n ddiogel iawn yn ystod fy apwyntiadau gyda hi a byddaf yn parhau i ddefnyddio ei gwasanaethau yn y dyfodol."*
>
> *"Gwasanaeth gwych gyda Meg, erioed wedi teimlo mor gyfforddus a diogel yn fy mywyd. Roedd canlyniadau'r prawf croen yn anghredadwy felly gwnes i ddychwelyd, ond y profiad cyffredinol â Meg ei hun oedd y gorau i mi erioed ei gael. Mor lân a phroffesiynol, a rhoddodd ddigon o gyngor i mi ar gyfer ôl-ofal."*

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedwyd wrthym fod y staff wedi rhoi cyngor ôl-ofal clir yn ystod ymgyngoriadau er mwyn helpu cleifion i ofalu am eu croen ar ôl cael triniaeth. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau ar amddiffyn rhag yr haul a chymeriant dŵr priodol. Dywedwyd wrthym fod y staff hefyd yn cynnal gwiriadau rheolaidd am unrhyw amlygiad diweddar i'r haul ac yn addasu apwyntiadau pan fo angen i sicrhau bod triniaethau'n cael eu darparu'n ddiogel ac yn unol ag arfer gorau.

Urddas a pharch

Er nad oedd y clinig yn gweithredu ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar yr amgylchedd trin a gwelsom ei fod yn cynnig preifatrwydd i gleifion. Roedd yr holl ymgyngoriadau a thriniaethau yn cael eu cynnal yn yr ystafell ddynodedig ar gyfer triniaethau laser a oedd wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod, ar wahân i'r dderbynfa. Roedd modd cloi drws yr ystafell, a chadarnhawyd bod y drysau'n cael eu cadw ar gau ac yn cael eu cloi fel mater o drefn yn ystod triniaethau, gan sicrhau lleoliad preifat a diogel i gleifion.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn gallu dod â hebryngwr o'u dewis gyda nhw i'w hapwyntiad. Roedd gan y lleoliad gyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol ar gyfer hebryngwr. Fodd bynnag, nid oedd gan y clinig bolisi hebryngwyr ar waith i nodi'r

disgwyliadau ynghylch pryd y dylid cynnig hebryngwyr a sut y caiff hyn ei gofnodi. Gwelsom dystiolaeth yn fuan ar ôl yr arolygiad fod y rheolwr cofrestredig wedi datblygu polisi hebryngwyr a'i roi ar waith.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd gan y lleoliad bolisi cydsynio i driniaeth priodol ar waith. Disgrifiodd y staff broses ymgynghori gynhwysfawr cyn triniaeth lle roedd cleifion yn cael esboniadau llafar clir a gwybodaeth electronig am y triniaethau sydd ar gael. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y manteision bwriadedig, risgiau posibl ac unrhyw gyfyngiadau o ran y driniaeth, gan sicrhau bod unigolion yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal.

Roedd cydsyniad cleifion yn cael ei gofnodi'n ffurfiol ar system cofnodion cleifion electronig, a oedd wedi'i diogelu gan gyfrinair i gynnal cyfrinachedd a chydymffurfio â gofynion diogelu data.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd Datganiad o Ddiben a chanllaw i gleifion yn y lleoliad, a oedd ar gael i gleifion ar gais ar bapur neu yn electronig. Roedd y Datganiad o Ddiben yn cynnwys y wybodaeth a oedd yn ofynnol gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Gallai cleifion drefnu apwyntiadau drwy system ar-lein, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Dangosodd y gwasanaeth gyfathrebu effeithiol ac ymrwymiad clir i ddiwallu anghenion unigol. Roedd y staff yn sicrhau bod pobl sy'n defnyddio cadair olwyn yn gallu cael mynediad cyfforddus i'r clinig, ac roeddent yn esbonio y gellid rhoi triniaeth i gleifion yn eu cadair olwyn, gan roi sicrwydd a chefnogi gofal hygyrch, wedi'i bersonoli.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw siaradwyr Cymraeg yn y clinig; fodd bynnag, roedd gwasanaeth Language Line ar gael pe bai cleifion yn dymuno cael gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu ieithoedd eraill.

Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom edrych ar gofnodion pum claf a chadarnhawyd bod prosesau priodol wedi'u rhoi ar waith cyn y driniaeth. Lle bo angen, roedd y cleifion wedi cael prawf croen cyn dechrau cwrs o driniaeth, gan alluogi'r ymarferydd i asesu'r tebygolrwydd o adweithiau niweidiol a theilwra'r gofal yn unol â hynny.

Fodd bynnag, nid oedd cofrestr triniaethau wedi'i chofnodi ar gyfer pob uned laser, a oedd yn golygu na ellid olrhain triniaethau ac yn cyfyngu ar allu'r gwasanaeth i nodi digwyddiadau niweidiol ac ymateb iddynt. Cawsom dystiolaeth yn fuan ar ôl yr arolygiad fod y lleoliad wedi llunio cofrestr triniaethau ar gyfer pob uned laser.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd gan y clinig bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar waith, i ddangos ei ymrwymiad i sicrhau mynediad teg i bob unigolyn at wasanaethau a bod pob unigolyn yn cael ei drin yn gyfartal. Fodd bynnag, nid oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac nid oedd dull cyson o gofnodi rhagenwau cleifion. Aethpwyd i'r afael â hyn yn fuan ar ôl yr arolygiad, drwy drefnu i'r staff gwblhau hyfforddiant ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a chyflwyno trefniadau i gofnodi rhagenwau yn ystod y cam ymgynghori.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Gwelsom fod y gwasanaeth yn adolygu adborth gan gleifion ac yn ei ddefnyddio i gefnogi gwelliannau. Roedd crynodeb o'r adborth a gasglwyd dros y 12 mis blaenorol wedi'i gwblhau ac ar gael yn y canllaw i gleifion. Gallai cleifion roi adborth ar lafar, yn ddigidol, ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy arolwg boddhad y byddai'r lleoliad yn ei ddarparu ar ôl triniaeth. Roedd yr holl adborth a roddwyd yn gadarnhaol ac wedi'i gyhoeddi ar wefan y gwasanaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd amgylchedd y clinig yn lân ac yn drefnus yr olwg, ac roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau diogelwch y safle. Roedd system clo a chyfrinair ar ddrws y clinig er mwyn sicrhau mai dim ond personau awdurdodedig a allai gael mynediad. Gwelsom fod angen atgyweirio llawr y clinig, a fyddai'n lleihau'r risg o lithro, baglu a chwympo i'r staff a chleifion, ac yn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau ac atal a rheoli heintiau effeithiol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i lawr y clinig gael ei atgyweirio neu ei newid.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom dystiolaeth bod y tystysgrifau profi nwy, diogelwch trydanol ac offer cludadwy wedi'u cwblhau'n foddhaol ac o fewn yr amserlenni gofynnol. Roedd asesiad risg Iechyd a Diogelwch wedi'i gwblhau ac yn gyfredol.

Gwnaethom nodi bod rhai trefniadau diogelwch tân ar waith. Roedd asesiad risg tân wedi'i gwblhau, ac roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod a'u gwasanaethu'n gywir. Fodd bynnag, nid oedd hyfforddiant ar ddiogelwch tân wedi'i gwblhau, ac nid oedd profion ar y system larwm tân nac ymarferion tân wedi'u cofnodi. Gwelsom dystiolaeth bod hyn wedi'i unioni yn syth ar ôl yr arolygiad. Roedd arwyddion allanfa dân yn yr ystafell clinig ac ym mhob rhan o'r adeilad; fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd arwydd wedi'i osod yn uniongyrchol uwchben drws yr allanfa dân. Nid oedd arwyddion dim smygu wedi'u harddangos yn y lleoliad chwaith.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod arwydd allanfa dân yn cael ei osod uwchben yr allanfa dân a bod arwyddion dim smygu yn cael eu harddangos yn y clinig.

Roedd pecyn cymorth cyntaf cyflawn a chyfredol ar gael. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf yn y gorffennol; fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd yn gyfredol. Cawsom dystiolaeth yn fuan ar ôl yr arolygiad fod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant gloywi cymorth cyntaf.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod prosesau atal a rheoli heintiau priodol ar waith a oedd yn golygu y gellid glanhau a dihalogi'r ardaloedd trin a'r cyfarpar yn effeithiol. Roedd polisi atal a rheoli heintiau boddhaol ar waith ac roedd cyfarpar diogelu personol a chyfleusterau golchi dwylo ar gael. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei drin yn briodol drwy gontract trin gwastraff. Gwelsom fod rhestrau gwirio glanhau yn cael eu defnyddio'n ddyddiol ac yn wythnosol, ond nid oedd y rhain yn cael eu cadw fel cofnod o weithgareddau glanhau rheolaidd. Cytunodd y rheolwr cofrestredig yn ystod yr arolygiad y byddai rhestrau gwirio glanhau yn cael eu cofnodi a'u cadw yn y dyfodol.

Nid oedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau; fodd bynnag, darparwyd tystiolaeth ar ôl yr arolygiad i ddangos bod hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau wedi'i drefnu a'i gwblhau.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Roedd y clinig wedi'i gofrestru i ddarparu triniaeth i gleifion 18 oed a hŷn. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio'n gaeth â'r cyfyngiad oedran hwn, yn unol â gofynion cofrestru'r gwasanaeth. Roedd caniatâd i bersonau o dan 18 fod yn yr ardal aros y tu allan i'r ystafell clinig.

Y rheolwr cofrestredig oedd yr arweinydd diogelu ac roedd yn deall ei rôl a'i chyfrifoldebau. Roedd polisi diogelu priodol ar waith a oedd yn cynnwys manylion timau diogelu lleol; fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd hyfforddiant y rheolwr cofrestredig ar ddiogelu yn gyfredol. Cawsom dystysgrif yn fuan ar ôl yr arolygiad i ddangos ei bod bellach wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Mae gan y clinig ddwy uned laser a oedd mewn cyflwr da, yn lân ac wedi'u gwasanaethu a'u calibradu'n briodol ac yn unol â'r cofrestriad ag AGIC. Roedd contract ar waith â Chynghorydd Diogelu rhag Laserau cymwysedig a oedd wedi ymweld â'r lleoliad ac wedi cwblhau asesiad risg ac adroddiad, yr oedd copi o'r ddau ohonynt ar gael.

Roedd rheolau lleol a phrotocolau meddygol unigol ar gael ar gyfer pob peiriant laser ac wedi'u llofnodi gan ymarferydd meddygol priodol a'r gweithredwr laser. Roedd y rhain yn gyfredol ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol yn ymwneud â'r peiriannau.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod triniaethau yn cael eu rhoi yn ddiogel ac yn effeithiol yn y lleoliad. Roedd y staff yn meddu ar gymwysterau a hyfforddiant priodol, ac roedd tystysgrifau wedi'u harddangos yn y clinig, gan gynnwys hyfforddiant craidd gwybodaeth.

Roedd sbectolau addas ar gael i'r gweithredwr, y claf ac un hebryngwr, ac roeddent mewn cyflwr da. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y sbectolau'n cael eu gwirio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn lân ac yn addas i'w defnyddio.

Roedd modd cloi drws yr ystafell drin gyda mynediad drwy fysellbad ac roedd arwyddion priodol i rybuddio eraill bod yr unedau laser yn cael eu defnyddio. Roedd system allweddi ar waith ar gyfer cael mynediad i'r peiriannu laser, ac roedd yr allweddi yn cael eu storio mewn cwpwrdd wedi'i gloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio, yn unol â'u rheolau lleol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd cleifion yn cael eu hannog i roi adborth yn weithredol ar lafar a thrwy sianeli digidol, a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y wybodaeth hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig yn sicrhau ei bod yn ymwybodol o driniaethau newydd er mwyn helpu i wella a sicrhau bod cleifion yn cael gwasanaeth o ansawdd.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Roedd cofnodion cleifion a'r system trefnu apwyntiadau ‘That Time’ ar ffurf electronig, yn cael eu cadw i safon dda ac yn cynnwys manylion clinigol priodol.

Roedd yr holl wybodaeth am driniaethau ar gael ar y wefan ac yn cael ei thrafod yn ystod yr ymgynghoriad.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel ar system electronig a oedd wedi'i diogelu â chyfrinair. Gwnaethom edrych ar gofnodion pum claf a gwelsom drefniadau cadw cofnodion o safon uchel, a bod gwybodaeth gynhwysfawr wedi'i chofnodi. Roedd hyn yn cynnwys manylion adnabod y claf, hanes meddygol, cydsyniad, ffurflenni ymgynghori a hanes triniaethau. Roedd y lleoliad yn ymwybodol o'r cyfnod cadw data ar gyfer cofnodion ac yn gallu esbonio’r broses ar gyfer gwaredu cofnodion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig oedd yn berchen ar Laser Meg ac yn ei reoli. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei bod yn gyfrifol am bob agwedd ar ddarparu'r gwasanaeth, gan gynnwys goruchwylio safonau clinigol, prosesau cadw cofnodion, a chydymffurfiaeth reoliadol.

Roedd tystysgrif cofrestru'r clinig ag AGIC wedi'i harddangos ar y safle. Roedd gan y clinig yswiriant priodol ar waith hefyd, ac roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol ar gael i'w harchwilio.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd rheolwr y lleoliad yn goruchwylio cwynion gan gleifion. Roedd y weithdrefn gwyno a welsom yn briodol, yn gyfredol ac yn cyfeirio at AGIC fel ffordd o uwchgyfeirio pryderon. Roedd crynodeb o'r broses gwyno wedi'i gynnwys yn natganiad o ddiben y clinig ac yn y canllaw i gleifion.

Nid oedd unrhyw gwynion na digwyddiadau blaenorol i ni eu hadolygu yn ystod yr arolygiad.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Ar adeg yr arolygiad, rhoddodd y rheolwr cofrestredig dystiolaeth o wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd y rheolwr cofrestredig yn gweithio fel yr unig weithredwr laser, ac nid oedd yn bwriadu recriwtio yn y dyfodol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Drwy gydol yr adroddiad hwn, rydym wedi nodi nad oedd y rheolwr cofrestredig cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf mewn meysydd sy'n berthnasol i'w rôl megis Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Diogelwch Tân, Cymorth Cyntaf a Diogelu.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i gynnal cydymffurfiaeth â'r holl ofynion hanfodol o ran hyfforddiant, gan gynnwys system ddibynadwy ar gyfer monitro hyfforddiant a nodi pryd mae angen cwblhau hyfforddiant gloywi.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd cofrestr triniaethau wedi'i chofnodi ar gyfer pob uned laser.	Mae hyn yn cynyddu'r risg o niwed posibl i gleifion am na ellir olrhain os bydd unigolyn yn cael adwaith niweidiol	Codwyd y mater gyda'r rheolwr cofrestredig	Cyflwynodd y rheolwr cofrestredig gofrestr triniaethau y diwrnod ar ôl yr arolygiad
Roedd hyfforddiant y rheolwr cofrestredig ar Ddiogelu a Chymorth Cyntaf wedi dod i ben.	Mae hyn yn cynyddu'r risg o niwed i'r staff a chleifion.	Codwyd y mater gyda'r rheolwr cofrestredig	Cwblhaodd y rheolwr cofrestredig hyfforddiant ar ddiogelu a chymorth cyntaf y diwrnod ar ôl yr arolygiad.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Laser Meg Ltd

Dyddiad yr arolygiad: 11 Mai 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad	
1.	Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.		
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		**Swyddog cyfrifol**	**Amserlen**

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Laser Meg Ltd

Dyddiad yr arolygiad: 11 MAI 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Roedd arwyddion ‘allanfa dân’ a ‘dim smygu’ ar goll.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod arwydd allanfa dân yn cael ei osod uwchben yr allanfa dân a bod arwyddion dim smygu yn cael eu harddangos yn y clinig.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 – Rheoliad 26	Arwyddion wedi'u prynu a'u gosod ar 21/05/26.	Megan Stacey	Wedi'i gwblhau
2.	Mynd i'r afael â'r llawr sydd wedi'i ddifrodi yn yr ystafell clinig.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i lawr y clinig gael ei atgyweirio neu ei newid.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 – Rheoliad 26	Llawr newydd wedi'i osod ar 26/06/26	Megan Stacey	Wedi'i gwblhau

3.	Nid oedd system ar gyfer monitro hyfforddiant hanfodol a chydymffurfiaeth.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i gynnal cydymffurfiaeth â'r holl ofynion hanfodol o ran hyfforddiant, gan gynnwys system ddibynadwy ar gyfer monitro hyfforddiant a nodi pryd mae angen cwblhau hyfforddiant gloywi.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 – Rheoliad 20	Mae'r rheolwr cofrestredig wedi rhoi nodiadau atgoffa yn nyddiadur ei ffôn er mwyn sicrhau y caiff hyfforddiant ei gwblhau o fewn yr amserlenni cywir.	Megan Stacey	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Megan Stacey – Rheolwr Cofrestredig

Enw (priflythrennau): Megan Stacey

Swydd: Rheolwr Cofrestredig Dyddiad: **29/06/26**